

Cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd yn  
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstey, Rhuthun, nos Lun, 11 Mawrth 2019 am 7:00p.m.

**PRESENNOL:** Y Cyngorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

**87. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**88. DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**89. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019 yn gywir.*

**90. MATERION YN CODI**

Cyfeiriodd y Clerc neges gan y Cyngorydd Stephen Beach yn cadarnhau bod y fainc yng Nghae Seren wedi'i gosod yno gan Gymdeithas Trigolion Parc Seren a byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad i symud y fainc yn gorfod cael ei gytuno gan y Gymdeithas. Roedd yn cydgysylltu gyda'r aelod o'r cyhoedd ynghylch hyn.

**91. DIWRNODAU PARCIO AM DDIM 2019**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y pum diwrnod parcio am ddim ym meysydd parcio Cyngor Sir Ddinbych yn y dref. Awgrymodd aelod ystyried digwyddiad arfaethedig Beicio Cymru ar gyfer parcio am ddim.

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiadau'r diwrnodau parcio am ddim yn 2019 fyddai 29 Mehefin ar gyfer digwyddiad Top Dre Gŵyl Rhuthun, 7 Medi ar gyfer digwyddiad Drysau Agored Rhuthun a siopa Nadolig ar 7, 14 a 21 Rhagfyr.*

**92. RHUTHUN DI-BLASTIG**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cefnogi ymgyrch i sicrhau statws Cymuned Ddi-blastig i Rhuthun. Roedd cais hefyd i aelod o Gyngor Tref Rhuthun gynrychioli'r Cyngor ar y grŵp llywio. Enwebwyd y Cyngorydd Emrys Wynne fel cynrychiolydd.

**PENDERFYNWYD:** *y byddai'r Cyngorydd Emrys Wynne yn cynrychioli'r Cyngor Tref ar y grŵp llywio, anfon llythyr o gefnogaeth gan Gyngor Tref Rhuthun a gwahodd Mair Davies i roi cyflwyniad i'r Cyngor Tref ynghylch yr ymgyrch hon.*

**93. GRŴP TREF TACLUS**

Cadarnhaodd y Cyngorydd Harris mai dyddiadau sesiynau nesaf y Tîm fyddai dydd Sul, 24 Mawrth a dydd Llun, 8 Ebrill. Holodd aelodau a fyddai'r Ymgyrch Tacluso flynyddol yn cael ei chynnal eleni, ac awgrymwyd cynnal yr ymgyrch ddydd Sadwrn, 6 Ebrill, 10am – 12pm, gan gyfarfod ym maes parcio Buarth Crispin. Hefyd awgrymwyd gofyn i glybiau chwaraeon lleol dacluso o gwmpas eu hardaloedd eu hunain y diwrnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r dyddiadau sesiynau'r Tîm Tref Taclus, ac Ymgyrch Tacluso'r Dref ar ddydd Sadwrn, 6 Ebrill, a chysylltu gyda chlybiau chwaraeon lleol i ofyn iddynt gasglu sbwriel o gwmpas eu heiddo nhw ar yr un dyddiad.*

**94. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 8 Ebrill 2019 am 7:00pm.*

**95. CYFLWYNIAD GAN RHIAN PARRY, WORKPLACE WORKSAFE**

Croesawodd y Maer Rhian Parry o gwmni Workplace Worksafe ac aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i glywed cyflwyniad ynghylch cynnig Workplace Worksafe ar gyfer y safle cyfleoedd

gwaith yng Nghanol y Dre, sy'n gartref i Popty a mentrau eraill ar hyn o bryd. Yn dilyn cynnal cynllun peilot am chwe mis gyda phobl ag anhawsterau dysgu yn gwneud bagiau ar ran y cwmni, roedd hi'n awyddus i ddatblygu'r safle i greu canolfan ynni. Dim ond wythfed rhan o'r adeilad, sydd mewn cyflwr gwael, sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Y bwriad fyddai cael tri neu bedwar o fusnesau eraill i fod yn rhan o'r cynllun i sicrhau llif gwaith cyson ac amrywiol i'r unigolion, gyda swyddfeydd hyblyg y gellid newid eu maint yn ôl y galw. Roedd y syniad wedi gwneud argraff ar yr aelodau ac roeddynt yn cefnogi'r cynnig. Awgrymwyd bod Ms. Parry'n trafod y cynnig gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *darparu llythyr o gefnogaeth i'r cynnig gan Gyngor Tref Rhuthun.*